

CYFRIFOLDEBAU TRAWSGWRICWLAIDD

BLWYDDYN 4

Y CYFRIFOLDEBAU

Mae'r tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd ar nod i godi safonau addysgu (Estyn, 2014) a chyraeddiadau disgyblion Yng Nghymru (IYGG, 2017). Y nod yw i athrawon amrwymo'n greadigol i greu cyfleoedd cyfoethog yn rheolaidd (Donaldson, 2015) i gymhwyso'r tri Chyfrifoldeb ar draws y cwricwlwm (Estyn 2014). Mi fydd y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a rhan annatod yn y cwricwlwm newydd gyda phwyslais ar ei gymhwyso trwy'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (IYGG, 2017).

LLYTHRENNEDD Trawsgwricwlaidd

- Llafaredd ar draws y cwricwlwm
 - darllen ar draws y cwricwlwm
 - ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.
- (AAS, 2013, t. 8).

RHIFEDD Trawsgwricwlaidd

- Datblygu ymresymu rhifyddol
 - defnyddio sgiliau rhif
 - defnyddio sgiliau mesur
 - defnyddio sgiliau data.
- (AAS, 2013, t. 8).

CYMHWYSEDD DIGIDOL Trawsgwricwlaidd


- Dinasyddiaeth.
- Rhyngweithio a chydweithio.
- Cynhyrchu.
- Data a meddwl cyfrifiadurol.

(Is-adran Diwygio'r Cwricwlwm, 2016, t. 4).

Y MODELAU

Barnes (2015) cynlluniwyd y modelau defnyddiwyd yn y poster yma. Mae'r modelau a'r gweithgaredd yn sbardun neu elfen o gyfres o weithgareddau a thasgau. Gweli'r sut mae'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn rhan bwrpasol i bob tasg ac a nod i ddatblygu sgiliau penodol yng nghyd-destun y model.

Thema



Yn Ne Cymru rydym yn ffodus i gael adnodd mor arwyddocaol mor agos. Mae cyfleoedd yn y thema yma i archwilio nifer o Feysydd Dysgu a Phrofiad megis hanes ceiniogau, priodweddau defnyddiau, gwerthoedd ceiniogau ar draws y byd ynghyd a thrip addysgol i ymweld ar Fathdy Brenhinol. Ceir cyfle hefyd i ddatblygu datganiadau'r Cwricwlwm Cymreig ynghyd a meysydd ADCDF megis hunaniaeth a diwydiant a chyfoeth a thlodi (APADGOS, 2008). I gyfoethogi profiadau'r disgyblion mae gan yr athro'r cyfrifoldeb o gynnwys y Tri Chyfrifoldeb i ddatblygu sgiliau ehangach y disgyblion.

Y MODEL THEMA

Mae unedau thematig yn archwilio'r cysylltiadau rhwng meysydd dysgu (Grigg a Hughes, 2013) sy'n rhoi profiad ysgogol a chymhellon i ddisgyblion cymhwyso eu medrau craidd mewn modd ystyrlon gan sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys (Estyn, 2016b). Dim ond pynciau pwrpasol a fydd yn dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion dylai cael ei chynnwys mewn dysgu thematig (Barnes, 2011). Yn ôl Donaldson (2015, tud. 106) mae'n bwysig bod disgyblion yn gweld 'pwrpas yr hyn y maent yn ei ddysgu'. Trwy astudio'r Bathdy Brenhinol sydd wedi ei leoli yn Rhondda Cynon Taf mae digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau cwricwlaidd, sgiliau'r FfLIRhCD a sgiliau ehangach y cwricwlwm. Mae'r thema wedi'i gysylltu â ffynonellau cyfoethog y gymuned (Barnes, 2011) gan fanteisio ar y cyfle i fod yn 'yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol' (Donaldson, 2015, tud. 30).


CYFYNGIADAU'R MODEL THEMA

- Peryg gall ffiniau pwnc gwanhau gan rwystro cynnydd o fewn y pwnc penodol (Barnes, 2011).
- Mae angen gwybodaeth pwnc cadarn ar athrawon i gryfhau ac atgyfnerthu sgiliau disgyblion yn drawsgwricwlaidd (Donaldson, 2015).
- Mae angen y wybodaeth a sgiliau pynciol priodol ar ddisgyblion iddynt allu eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau.
- Mae'r broses o gynllunio, addysgu ac asesu yn cymryd fwy o amser athrawon wrth weithio'n trawsgwricwlaidd.

Y FFORDD YMLAEN

- Cynnwys llais y plenty wrth gynllunio gan fod ei chyfranogiadau yn gwellu ansawdd addysgu ac ymgysylltiad y dysgwyr (Estyn, 2016a).
- Sicrhewch eich bod yn parhau i ddatblygu eich gwybodaeth pwnc sydd yn rhan o ddatblygu proffesiynol.
- Manteisiwch ar arbenigedd staff a'r gymuned.

FFOCWS-DWBL



CELFYDDYDAU MYNEGIANNNOL
GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

PROFIAD
DYSGU
ATYNIADOL

Barnes, 2018

Cyfres gerddorfa'r Planedau gan Holst

Celfyddydau Mynegiannol - Dawns

- Nod:** cyfansoddi coreograffi syml i gyfleu darn penodol o'r planedau.
- Sgil:** Cydnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffi syml er mwyn eu defnyddio i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau (Yr Is-adran Cwricwlwm, 2008a, tud. 13).
- Ystod:** Dylai cyfansoddi dilyniannau a motiffau dawns wedi'u coreograffi gynnwys nodweddion megis amrywiadau mewn rhythm, cyflymder, siâp, lefel, cyfeiriad a llwybrau; cytuno a chysylltu gweithgaredd; perthnasoedd a phartneriaid, cynulleidf, cyfarpar neu symbyliad (Yr Is-adran Cwricwlwm, 2008a, tud. 13).
- Adnoddau:** dyfais recordio.

Llythrennedd

- Llafaredd:** cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan (Llywodraeth Cymru, 2014).
- Llafaredd:** helpu grŵp i ddod i gytundeb (Llywodraeth Cymru, 2014).

Rhifedd

- Defnyddio sgiliau rhif:** cydnabod bod ffracsynau yn sawl rhan sy'n creu rhif cyfan (arwydd amser cerddoriaeth) (Llywodraeth Cymru, 2014).
- Defnyddio sgiliau mesur** - darllen oriau a munudau ar gloc digidol 24-awr (rheoli amser) (Llywodraeth Cymru, 2014).

Cymhwysedd digidol

- Cynhyrchu** - golygu fideo'n syml (tocio), gan gynnwys siot hir, siot canolig a siot agos (Llywodraeth Cymru, 2016).

Ar hyn o bryd mae dawns yn rhan o'r pwnc addysg gorfforol yn y cwricwlwm presennol. Yn y cwricwlwm newydd mi fydd dawns yn rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad y celfyddydau mynegiannol ac felly gan ei'n bod yn symud tuag at y cwricwlwm newydd mae'r model wedi'i chynllunio yn dilyn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Trwy'r celfyddydau mynegiannol mae'r cyfle i feithrin eu doniau creadigol drwy archwilio cerddoriaeth, dawns, drama, ffilm a chyfyngau digidol (Donaldson, 2015).

Mae gwyddoniaeth a thechnoleg a rôl bwysig wrth adnabod trefn a nodweddion y planedau. Mae nifer o adnoddau defnyddiol iawn a'r gwefannau NASA a'r BBC i gyfoethogi'r addysgu gan alluogi archwilio'r gofod o fewn yr ystafell dosbarth.

Ochr yn ochr â'r meysydd dysgu mae gan yr athro cyfrifoldeb i gynllunio, addysgu ac asesu'r Tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a mentrus (Donaldson, 2015).

Y MODEL FFOCWS-DWBL

Mae cysylltu meysydd dysgu yn creu profiadau perthnasol a heriol i gwrdd ag anghenion amrywiol plant (Llywodraeth yr Alban, 2008) lle mae cyfle uwch o blentyn dod o hyd i lwybr dysgu sy'n datblygu ei sgiliau ymhellach (Barnes, 2015). Pwysleis'i'r gan Donaldson (2015) yn y Cwricwlwm newydd i greu cysylltiadau rhwng y Meysydd Dysgu a Phrofiad i gryfhau'r disgyblaethau dysgu. Mae'r model ffofws-dwbl yn cynnig cydbwysedd a statws cyfartal rhwng disgyblaethau (Barnes, 2015) sef yn yr achos yma, Y Celfyddydau Mynegiadol a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yn ôl Donaldson (2015, tud. 44), mae cysylltiadau pwysig rhwng y ddau faes dysgu yma gan, gyda'i gilydd, maent yn cynnig profiadau i 'wrth ddehongli a mynegi ystyr'. Mae dysgu mwyaf effeithiol yn digwydd yn ôl Ofsted a'r QCA pan mae cysylltiadau rhwng pynciau (Rose, 2009).

CYFYNGIADAU'R MODEL FFOCWS-DWBL

- Gall disgyblion colli diddordeb mewn un o'r meysydd dysgu.
- Dod o hyd i ddau Faes Dysgu gelli'r ddatblygu ochr yn ochr yn effeithiol.
- Sicrhau bod gennych wybodaeth pwnc priodol a digon o adnoddau i gefnogi yn y ddau Faes Dysgu.

Y FFORDD YMLAEN

- Arbrofwch gyda syniadau ar raddfa fach a gwerthuso cyn ymrwymo a'r dull am y hir dymor (Rowley a Cooper, 2009)
- Cynhaliwch digon o ymchwil i'r Meysydd Dysgu gan gasglu syniadau ac adnoddau effeithiol.

